Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd y Tymbl
# Heol y Neuadd
# Y Tymbl
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 6HR

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Tymbl ym mhen isaf pentref y Tymbl yng nghwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae 128 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd ar y gofrestr.

Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ac mae 13% o'r disgyblion â'r Gymraeg yn brif iaith y cartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o grŵp ethnig.

Mae 27% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a sirol. Ar hyn o bryd, mae 39% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, ffigwr sydd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ym mis Tachwedd, 2007 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2001.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Y Tymbl yn 2013-2014 yw £3,998. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Y Tymbl yn safle 33ain o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- rhan fwyaf y ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- ethos cynnes a chroesawgar yn yr ysgol;
- safonau ymddygiad y disgyblion yn dda; a bod
- darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg na'r Saesneg;
- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm;
- nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni cystal â'r disgwyl;
- mae angen gwella ansawdd lleiafrif o'r gwersi; a
- mae meysydd pwysig angen eu gwella mewn perthynas ag asesu ac asesu ar gyfer dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- yr ysgol yn defnyddio ystod addas o ffynonellau ar gyfer hunanarfarnu;
- blaenoriaethau priodol wedi'u pennu ar gyfer gwelliant pellach;
- pob un o'r staff yn rhannu gweledigaeth a phwrpas cyffredin sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer y disgyblion; a bod
- partneriaeth gadarn yn bodoli gyda'r rhieni a'r gymuned.

Fodd bynnag:

- nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro gwersi a chraffu ar lyfrau yn ffocysu'n ddigon trylwyr ar godi safonau;
- nid yw swyddogaeth y corff llywodraethol o ran darparu her fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu ddigon; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd parthed yr argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg

A2 Datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnig digon o her i'r disgyblion, gan gynnwys y mwyaf galluog

A4 Gwella ansawdd yr addysgu a chryfhau asesu ar gyfer dysgu

A5 Cryfhau'r broses hunanarfarnu a sicrhau bod monitro yn ffocysu'n gadarn ar godi safonau

A6 Gwella presenoldeb disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dysgu strwythur brawddegau a geirfa Gymraeg yn gyflym, a daw'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus mewn defnyddio'r Gymraeg mewn amryw o sefyllfaoedd. Mae mwyafrif o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus ar lafar. Maent yn siarad yn glir ac yn estynedig am eu gwaith mewn amryw o sefyllfaoedd gan ddefnyddio geirfa addas.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn medru darllen ar goedd yn ystyrlon gyda goslef briodol, ac yn gwneud defnydd da o'r llais i amrywio'r mynegiant. Er hynny, nid yw lleiafrif yn darllen deunyddiau Cymraeg sydd yn rhoi digon o her iddynt. Mae disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu defnydd o fedrau ymchwilio. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yng ngallu disgyblion i ymateb i ffuglen a thrafod agweddau ar yr hyn a ddarllenant yn datblygu cystal.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio arddulliau gwahanol wrth ysgrifennu yn y Gymraeg at ddibenion amrywiol. Mae tua hanner o'r ysgrifenwyr mwyaf medrus yn dechrau cynnal, datblygu ac ymestyn eu syniadau wrth gyflwyno darnau dychmygus. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o'r disgyblion yn medru darllen yn y Gymraeg yn ystyrlon gyda mynegiant addas. Mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais yn effeithiol i gyfleu ystyr wrth ddarllen ar goedd. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o'r disgyblion all drafod eu hoff lyfrau ac awduron.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg ac yn medru defnyddio geiriau allweddol i gyflwyno safbwyntiau gwahanol. Gwnânt gynnydd priodol yn eu defnydd o eirfa a thermau. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yn y gallu i ysgrifennu'n rhydd ac estynedig i ystod o bwrpasau mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm, ynghyd â'r gallu i ysgrifennu darnau creadigol a dychmygus.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd addas mewn darllen llyfrau Saesneg. Mae rhai disgyblion yn trafod eu hoff awduron neu lyfrau y maent wedi'u darllen o'r blaen yn addas. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddisgyblion hŷn fynegiant clir wrth ddarllen ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r llyfrau a'r cymeriadau.

Nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig trwy gyfrwng y Saesneg yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm. Ychydig iawn o waith ysgrifenedig sy'n cael ei ail-ddrafftio. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio ysgrifennu rhydd ac estynedig y disgyblion ac yn amharu ar y cynnydd.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd da, gan ymdrin â rhifau, dulliau mesur, siâp, arian a defnyddio data yn briodol. Maent yn gallu defnyddio’r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau mathemategol syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gallu cymhwyso’u medrau rhifedd yn dda wrth ddefnyddio arian ac wrth greu tablau a graffiau syml mewn ymchwiliadau gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni gwaith mathemateg ar lefel briodol yn unol â’u hoed a’u gallu. Maent yn cwblhau amrywiaeth dda ac eang o waith pwrpasol ac addas. Fodd bynnag, mae llawer o’r disgyblion yn cyflwyno eu gwaith cyfredol ar daflenni parod ac, o ganlyniad, nid ydynt yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Prin iawn yw’r esiamplau o gymhwyso mathemateg i feysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol ac maent yn datblygu eu medrau’n dda.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Nid yw’r disgyblion mwyaf abl yn cyflawni i’w llawn botensial.

Yn 2013, roedd cyflawniadau’r disgyblion yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. O gymharu canlyniadau’r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â’r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae’r ysgol yn perfformio yn y 50% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrenedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol, ac yn y 25% isaf o ran medrau personol. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni’n uwch na’r deilliant disgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru heblaw am yn y medrau personol.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion yn cyflawni’r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn 2013 yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae’r tuedd wedi amrywio tipyn dros y pedair blynedd ddiwethaf ac roedd y cyflawniadau yn is na’r teulu mewn dwy flynedd allan o’r pedair. O gymharu canlyniadau’r ysgol â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran disgyblion sydd â’r hawl i dderbyn cinio am ddim, yn 2013 mae’r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uchaf yn y Gymraeg. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae’r tueddiadau wedi amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uchaf.

**Lles: Da**

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion am gadw’n iach a heini yn dda ac maent yn deall ei bwysigrwydd. Teimlant yn hapus a diogel tra yn yr ysgol ac maent yn ymwybodol at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw’n iach, bwyta diet iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw eu medrau i wella eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n briodol.

Mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Mae bron pob un yn foesgar a chwrtais ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion. Mae'r disgyblion hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau o'u gwirfodd yn ystod amserau chwarae.

Trwy ystod o weithgareddau, y tu mewn a thu allan i'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd. Mae disgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig at eu lles drwy ymwneud â'r pwyllgor eco a'u cyfrifoldebau fel Cenhadon Ysgol Iach.

Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2011-2012 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg eraill, mae yn y 50% isaf o ysgolion. Serch hynny, roedd yn y 50% uchaf am y dair blynedd blaenorol. Mae pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn addas i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Ar y cyfan, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau yn addas, ond nid yw bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn y llyfrau gwaith, nid oes digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n greadigol ar draws y cwricwlwm ac nid yw cynllunio ar gyfer y dilyniant a pharhad yn y medrau wedi cael digon o effaith o ran sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio'r medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

Mae'r ffocws ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn galluogi mwyafrif y disgyblion i wneud cynnydd priodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol, megis disgyblion sy'n newydd i'r ysgol a'r Gymraeg yn iaith newydd iddynt, yn addas. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn briodol.

Mae'r ysgol yn cynnnig cyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn ystod dda o weithgareddau allgyrsiol i gyfoethogi eu dysgu. Mae ymweliadau diweddar ag amgueddfeydd Abertawe a Chaerfyrddin yn enghreifftiau o'r modd y mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd o'r fath yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygu cynaliadwyedd yn dda drwy waith y pwyllgor eco. Mae'n gweithredu'n gynaliadwy drwy hybu ystod briodol o gyfleoedd ailddefnyddio ac ailgylchu ac yn creu ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd ailgylchu bwyd a ffrwythau yn weithredol i greu'r gwrtaith. Mae'r siop

masnach deg yn codi arian trwy dyfu a gwerthu bwydydd. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy ei gweithgareddau cwricwlaidd a thrwy fentrau elusennol sy'n cefnogi sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi. Maent yn darparu cymorth priodol i'r disgyblion i sicrhau eu bod yn medru cwblhau'r gwaith ac yn cynnig modelau iaith addas. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at weithredu'r rhaglenni ar gyfer gwella medrau llythrennedd disgyblion.

Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae athrawon yn rhannu nodau dysgu clir gyda'r disgyblion ac yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gwybod sut i gyflawni'n dda. Yn y gwersi hyn, mae dilyniant o weithgareddau dysgu priodol yn sicrhau bod lefelau cymhelliant disgyblion yn cael eu cynnal. Hefyd, mae athrawon yn holi cwestiynau yn barhaus sy'n annog disgyblion i feddwl ac ymresymu a gwella eu dealltwriaeth o'r gwaith.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn rhoi digon o ystyriaeth i'r lefelau gwahanol o allu yn y dosbarth ac nid ydynt yn dangos yn glir i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae gorddefnydd o dasgau ysgrifennu isel eu her a thaflenni gwaith yn llesteirio gallu disgyblion i gyflawni cystal ag y gallent wrth ysgrifennu'n estynedig.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac, mewn lleiafrif o achosion, yn cynnig sylwadau defnyddiol i'w helpu i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd priodol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gosod targedau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgol systemau asesu effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth glir ar gynnydd a chyflawniad eu plant drwy adroddiadau addas a chyfarfodydd rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae systemau gwobrwyo effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a hefyd er mwyn gwella eu hunan-barch.

Mae aelodau'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi disgyblion yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad clir wedi ei rannu â phob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae trefniadau'r ysgol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Mae athrawon yn adnabod anghenion gwahanol

ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr dysgu yn effeithiol i gefnogi'r addysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol ble caiff bron pawb fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae hyn yn adlewyrchu cenhadaeth yr ysgol yn llwyddiannus, sef 'Ysgol heb galon, ysgol heb ofal'.

Mae arddangosfeydd deniadol, symbylus o waith y disgyblion ac ymweliadau â lleoliadau diddorol addysgol yn gorchuddio waliau'r dosbarth, y neuadd a'r coridorau. Mae hyn yn ennyn balchder yn y disgyblion.

Mae digon o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Mae bwrdd gwyn rhyngweithiol ymhob ystafell ddysgu ac ystafell bwrpasol ar gyfer technoleg gwybodaeth ac maent yn cael effaith dda ar safonau'r disgyblion.

Mae'r adeiladau mewn cyflwr addas ac yn cynnig digon o le. Mae'r safle eang yn cael ei defnyddio'n llawn i greu ardaloedd ar gyfer gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. O ystyried oedran yr ysgol, mae'r adeilad o ansawdd derbyniol ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth addas ar gyfer yr ysgol, sydd wedi cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r pennaeth yn llwyddo i greu ethos ble mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i drafod gyda oedolion, ac mae hyn yn gryfder o fewn yr ysgol. Mae'r berthynas gadarnhaol hon yn sicrhau ymddygiad da a chodi hunan-barch y disgyblion.

Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n briodol fel tîm ac fel rhan o'r staff cyfan. Er hynny, nid ydynt yn arfarnu effaith strategaethau yn effeithiol ac nid oes ganddynt ffocws digon penodol bob amser ar godi safonau.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolwyr a chyfarfodydd staff yn weddol rheolaidd, ond nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon clir ar godi safonau a sefydlu camau gweithredu cytûn.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â gwella llythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael â thlodi ac anfantais.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn ymweld â dosbarthiadau ac wedi cychwyn mynd ar daith ddysgu i wella eu

dealltwriaeth o'i bywyd a'i gwaith. Maent yn cefnogi'r ysgol yn dda yn ei gwaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw rôl y corff fel cyfaill beirniadol wedi datblygu'n llawn ac nid yw eu dealltwriaeth o ddata a safonau'r ysgol wedi datblygu digon.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer gwella ansawdd yn gwneud defnydd addas o ystod o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys ymweliadau arsylwi yn y dosbarth ac archwilio samplau o waith disgyblion. Er hynny, nid yw'r trefniadau bob amser yn rhoi digon o sylw i safonau a chynnydd disgyblion.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata, tueddiadau mewn perfformiad a chymariaethau ag ysgolion tebyg. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhestr gryno o flaenoriaethau gwelliant sydd, ar y cyfan, yn cysylltu'n addas â'r cynllun datblygu ysgol. Er hynny, nid yw'r arfarniadau yn yr hunanarfarniad bob amser yn adlewyrchu ansawdd y ddarpariaeth na chyflawniadau'r disgyblion yn briodol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen addas sy'n canolbwyntio ar nifer o flaenoriaethau. Mae'n cynnwys ffocws addas ar godi safonau, yn enwedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau disgwyliedig bob amser yn ddigon penodol na meintiol ac, o ganlyniad, nid yw'n hawdd i arweinwyr adolygu cynnydd.

Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â mwyafrif o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Maent yn gefnogol i'r holl weithgareddau a ddarperir ac yn ymfalchïo ym mholisi 'drws agored' yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am gynnydd eu plant ac maent yn hapus gyda llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Caiff rhieni ac aelodau'r gymuned leol eu hannog i ddod i mewn i'r ysgol i gefnogi'r dysgu, yn enwedig gwrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae'r rhieni'n codi cryn dipyn o arian i wella adnoddau'r ysgol ac mae hyn wedi galluogi prynu adnoddau TGCh.

Mae'r berthynas â'r gymuned hefyd yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n rheolaidd yn Eisteddfod y pentref ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau llythrennedd. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd bob wythnos i ddisgyblion weithio ar gywaith celf gydag arlunydd lleol yng nghanolfan yr henoed ac mae hyn yn cael effaith dda ar safonau lles a chreadigol y disgyblion.

Mae trefniadau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddod o'r cyfnod meithrin i addysg amser llawn yn y dosbarth derbyn.

Mae cysylltiadau agos gyda'r ysgol uwchradd yn hybu gwelliannau mewn safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae trefniadau pontio effeithiol a hwylus yn hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymgymryd â rhai ymweliadau a theithiau addysgol sy'n cynnig profiadau da i ddisgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae digon o staff cymwys yn yr ysgol i ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn manteisio'n briodol ar arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd fel gwyddoniaeth, cerdd a daearyddiaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer pob athro yn addas.

Mae gofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn cael eu hateb. Nid oes trefniant ffurfiol ar gyfer rheoli perfformiad y cymorthyddion dosbarth, ond mae cyfarfodydd achlysurol gyda'r athrawon a'r pennaeth yn sicrhau y gallant elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn elwa ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant mewn meysydd penodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cyfranogi mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae gan yr ysgol ganllawiau addas i fonitro a rheoli gwariant yr ysgol yn ofalus. Mae'r corff llywodraethol yn gwneud penderfyniadau priodol i ymateb i newidiadau yn y cyllid o ganlyniad i newidiadau yn niferoedd disgyblion o bryd i'w gilydd.

O ystyried deilliannau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol ac yn y 25% isaf o ran medrau personol. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob maes ar wahân i'r medrau personol.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn 2013 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd wedi amrywio tipyn dros y pedair blynedd ddiwethaf. O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013 ac yn y 50% uchaf ar gyfer y Gymraeg. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r tueddiadau wedi amrywio tipyn o'r 25% isaf i'r 50% uchaf.

Yn 2013, roedd y canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn is o lawer na chyfartaledd y teulu yn y ddwy iaith a gwyddoniaeth ac yn is mewn mathemateg. Mae'r canrannau wedi bod yn weddol isel o gymharu â'r teulu yn y ddwy iaith dros gyfnod o amser.

Dros gyfnod o bum mlynedd, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 61 | 60 98% | 1 2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 61 | 59 97% | 2 3% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 61 | 60 98% | 1 2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 61 | 56 92% | 5 8% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 61 | 60 98% | 1 2% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 61 | 56 92% | 5 8% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 61 | 57 93% | 4 7% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 61 | 61 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 61 | 55 90% | 6 10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 61 | 54 89% | 7 11% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 61 | 53 87% | 8 13% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 61 | 45 74% | 16 26% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 38 | 26 | 11 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 68% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 38 | 26 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 38 | 30 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 38 | 25 | 10 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 36 | 15 | 18 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 42% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 38 | 24 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 63% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 38 | 21 | 15 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 55% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 37 | 21 | 13 | 0 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 38 | 23 | 11 | 0 | 0 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 38 | 23 | 12 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 38 | 26 | 9 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 35 | 12 | 16 | 0 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 34% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 36 | 19 | 17 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 38 | 27<br>71% | 11<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 38 | 17<br>45% | 17<br>45% | 1<br>3% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 36 | 20<br>56% | 15<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 35 | 12<br>34% | 13<br>37% | 1<br>3% | 0<br>0% | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 37 | 20<br>54% | 12<br>32% | 2<br>5% | 0<br>0% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 38 | 23<br>61% | 13<br>34% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Hefin Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Rees | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.